

RHEOLIADAU FFOEDD DYSGU MYFYRWYR - 2021/22			
Adran	Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr		
Awdur	Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr		
Awdurdodwyd Gan:	Bwrdd yr Is-ganghellor; Pwyllgor Strategaeth a Chyllid		
I'w gweithredu gan:	Derbyniadau a Chyllid		
Polisi a Gweithdrefn a ddisodlwyd:	Rheoliadau Ffioedd Dysgu Myfyrwyr ar gyfer Myfyrwyr DU, yr UE a Rhyngwladol - 2020/21		
Fersiwn Rhif:	3	Pwyllgor Cymeradwyo:	Bwrdd yr Is-ganghellor
Dyddiad cymeradwyo:	6 Tachwedd 2020	Rhif Cofnod:	Gweithred y Cadeirydd
Statws:		Dyddiad Gweithredu:	1 Awst 2021
Cyfnod cymeradwyo:	1 flwyddyn	Dyddiad Adolygu:	Mehefin 2022
Rwyf wedi cynnal prawf sgrinio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb.			Cyfarwyddwr, SPSA
Rwyf wedi ystyried effaith y Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn (dilêwch fel sy'n briodol) ar yr iaith Gymraeg a darpariaeth yr iaith Gymraeg yn y Brifysgol.			Cyfarwyddwr, SPSA

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r rheolau a'r rheoliadau o ran ffioedd dysgu i fyfyrwyr Prifysgol Glyndŵr. Mae'r symiau ffioedd dysgu canlynol wedi'u cymeradwyo fel rhai y gellir eu codi ar fyfyrwyr ym mlwyddyn academiaidd 2021/22 sy'n rhedeg o 1 Awst 2021 tan 31 Gorffennaf 2022.
- 1.2 Y ffi ar gyfer myfyrwyr israddedig cartref llawn amser sy'n ymrestru ym mlwyddyn 2021/2022 yw £9,000, a dylai myfyrwyr nodi y caiff y ffi hon yn ei hadolygu'n flynyddol a'i bod yn gallu newid yn unol ag unrhyw gynnydd a ganiateir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r sefyllfa hon hefyd yn berthnasol i fyfyrwyr a ymrestrodd yn 2020/21. Os bydd unrhyw newidiadau i ffioedd dysgu, bydd y Brifysgol yn cysylltu â myfyrwyr yr effeithir arnynt drwy e-bost ac yn rhoi'r newidiadau ar wefan y Brifysgol.

- 1.3 Ar gyfer myfyrwyr a ymrestrodd ym mlynnyddoedd blaenorol gellir dod o hyd i unrhyw amrywiadau i ffioedd yn y tablau ffioedd o fewn y ddogfen hon. Os yw eich blwyddyn fynediad cyn 2015/16 ewch i <https://www.glyndwr.ac.uk/en/Studentsupport/Funding/>
- 1.4 Ni chaniateir i fyfyrwyr ymrestru os oes ganddynt ddyled ffioedd dysgu academaidd yn ddyledus. Bydd y Brifysgol yn tynnu myfyrwyr oddi ar y rhaglen ac yn trefnu i'r cofnodion perthnasol gael eu cau os na thelir y ddyled o fewn dau fis i ddyddiad cychwyn y rhaglen.

2. DIFFINIADAU

- 2.1 Defnyddir y diffiniadau canlynol o fewn y polisi hwn:

Myfyrwyr newydd: y rhai sy'n cychwyn rhaglen astudio newydd, gan ymrestru yn 2021/22. Mae'n bosibl bod myfyrwyr wedi astudio ym Mhrifysgol Glyndŵr yn y gorffennol ar raglen wahanol neu ar lefel wahanol ond os ydynt nawr yn cychwyn ar gwrs newydd, fe ystyrir eu bod yn ymrestru fel myfyrwyr newydd yn 2021/22.

Myfyrwyr sy'n dychwelyd: y rhai sy'n ail-ymrestru ar yr un rhaglen a astudiwyd y flwyddyn flaenorol neu sy'n ail-ymrestru ar ôl cymryd cyfnod o absenoldeb wedi'i gymeradwyo, neu sy'n trosglwyddo'n uniongyrchol o un rhaglen i raglen arall fel rhan o drosglwyddiad a gymeradwywyd gan y Brifysgol.

Myfyrwyr cartref: y myfyrwyr hynny sy'n bodloni'r diffiniad o gymhwys ar gyfer ffioedd cartref yn unol â *Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007* a *Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015*. Gan y disgwylir i'r diffiniadau hyn newid ar gyfer 2021/22 nid ydym wedi'u hatgynhyrchu yn y ddogfen hon. Dim ond ar gategoriâu penodol o fyfyrwyr y codir ffioedd cartref. Am yr wybodaeth ddiweddaraf dylech bob amser ymgynghori ag UKCISA

Myfyrwyr rhyngwladol: y myfyrwyr hynny nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o Fyfyrwyr Cartref

3. Ffioedd Dysgu 2021/22

- 3.1 Gall **myfyrwyr cymwys o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon** wneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) i dalu'r ffioedd llawn ar gyfer eu cwrs.

Myfyrwyr cymwys o Gymru (nid y rhai o Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon) nodwch:

Gallwch wneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar gyfer rhan gyntaf ffioedd eich cwrs. Bydd yr arian hwn yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r Brifysgol ar eich rhan os yw'ch cais yn gymwys ac yn cael ei dderbyn. Gallwch ddod o hyd i fanylion ynglŷn â chyllid SLC, ffioedd ac unrhyw gymorth yn:

<https://www.studentfinancewales.co.uk/undergraduate-students/new-students.aspx>

Arian Cyhoeddus: Gall myfyrwyr Ôl-raddedig Rhan-amser fod yn gymwys ar gyfer cyllid. Cysylltwch â'r tîm Cyllid Myfyrwyr ar 01978 293548/293295 studentwelfare@glyndwr.ac.uk neu ewch i'n gwefan <https://www.glyndwr.ac.uk/en/Studentsupport/Funding/>
Yn ogystal, mae nifer cyfyngedig o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael i rai myfyrwyr, a cheir manylion am y rhain ar Wefan y Brifysgol.

3.2.1 FFI OEDD DYSGU - MYFYRWYR CARTREF

ISRADDEDIG - LLAWN AMSER - Myfyrwyr Cartref

Myfyrwyr newydd, mynediad yn 2021/22 – Israddedig llawn amser		Ffioedd y flwyddyn Yn daladwy yn 2021/22
Gradd Baglor: Pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg)	Peirianeg, Gwyddoniaeth, Cyfrifiadureg	£9,000
Gradd Baglor/TAR: yn gysylltiedig â phroffesiynau penodol	Pynciau a phroffesiynau sy'n gysylltiedig â Meddygaeth, yr Amgylchedd Adeiledig, Celf a Dylunio, Addysg, Newyddiaduraeth, y Cyfryngau	£9,000
Gradd Baglor: pynciau nad ydynt yn rhai STEM	Busnes, Dyniaethau	£9,000
Graddau Sylfaen, HND, HNC	Pob pwnc	£9,000
Gradd Llwybr Carlam/Gradd Meistr Integredig	Pob pwnc	£9,000
Blwyddyn lleoliad diwydiannol	Cyfrifiadura	£1,800
Ffioedd Modiwlau – Llawn Amser		
Ffi modiwl unigol ar gyfer myfyrwyr cartref fesul 10 credyd		£750

Myfyrwyr sy'n dychwelyd, mynediad yn 2021/22 – Israddedig llawn amser		Ffioedd y flwyddyn Yn daladwy yn 2021/22
Gradd Baglor: Pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg)	Peirianeg, Gwyddoniaeth, Cyfrifiadureg	£9000
Gradd Baglor/TAR: yn gysylltiedig â phroffesiynau penodol	Pynciau a phroffesiynau sy'n gysylltiedig â Meddygaeth, yr Amgylchedd Adeiledig, Celf a Dylunio, Addysg, Newyddiaduraeth, y Cyfryngau	£9000
Gradd Baglor: pynciau nad ydynt yn rhai STEM	Busnes, Dyniaethau	£9000

Graddau Sylfaen, HND, HNC	Pob pwnc	£9000
Gradd Llwybr Carlam/Gradd Meistr Integredig	Pob pwnc	£9000
Ffioedd Modiwlau – Llawn Amser		
Ffi modiwl unigol ar gyfer myfyrwyr cartref fesul 10 credyd		£750

Myfyrwyr sy'n dychwelyd, mynediad yn 2015/16 – Israddedig llawn amser		Ffioedd y flwyddyn Yn daladwy yn 2021/22
Gradd Baglor: Pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg)	Peirianeg, Gwyddoniaeth, Cyfrifiadureg	£8450
Gradd Baglor/TAR: yn gysylltiedig â phroffesiynau penodol	Pynciau a phroffesiynau sy'n gysylltiedig â Meddygaeth, yr Amgylchedd Adeiledig, Celf a Dylunio, Addysg, Newyddiaduraeth, y Cyfryngau	£8000
Gradd Baglor: pynciau nad ydynt yn rhai STEM	Busnes, Dyniaethau	£8000
Graddau Sylfaen, HND, HNC	Pob pwnc	£6500
Gradd Llwybr Carlam	Pob pwnc	£8450

ISRADDEDIG - RHAN-AMSER - Cartref

Myfyrwyr Newydd Israddedig Rhan-amser	Ffioedd y flwyddyn - yn daladwy yn 2021/22
Gradd Meistr Integredig	£4,500
Gradd Baglor	£4,500
Gradd Sylfaen	£4,500
HND/HNC	£4,500
Ffi modiwl unigol ar gyfer myfyrwyr yr UE/DU fesul 10 credyd (myfyrwyr newydd)	£750
Myfyrwyr sy'n dychwelyd - Blwyddyn Ailadrodd fesul 10 credyd a gyfeiriwyd	£750

Eithriadau i Israddedigion Rhan-amser	Ffioedd y flwyddyn - yn daladwy yn 2021/22
FdA Gofal Plant Therapiwtig dan hen raglen	£3,000
Dip AU Cwnsela	£3,995

ÔL-RADDEDIG A ADDYSGIR - LLAWN AMSER Cartref

Ffioedd Ôl-raddedig Llawn Amser y flwyddyn	Ffioedd y flwyddyn - yn daladwy yn 2021/22
MA, MSc, MRes (bil blynyddol am 1 flwyddyn yn unig)	£5,940
Ôl-raddedig Llawn Amser – Eithriadau	
MBA	£11,000
MBA – Traethawd yn Unig (mynediad uniongyrchol)	£3,000
MRes Ymchwil Gwyddor Biofeddygol Cymhwysol	£7,950
Mres Anthropoleg Fforensig	£7,950
MRes Ymchwil Clinigol Cymhwysol	£7,950
MSc Ymarfer Clinigol Uwch	£7,295
MSc Gwyddor Biofeddygol	£7,950
MRes Cemeg Fforensig a Dadansoddol	£7,950
Mres Anthropoleg Fforensig a Bioarchaeoleg	£7,950

ÔL-RADDEDIG A ADDYSGIR - RHAN-AMSER Cartref

Ffioedd Ôl-raddedig Rhan-amser y flwyddyn	Ffioedd y flwyddyn Yn daladwy yn 2021/22
MA/MSc/MRes ((bil blynyddol am ddwy flynedd)	£2,975
Safon ffi'r modiwl fesul 10 credyd	£500
Traethawd yn unig (myfyrwyr mynediad uniongyrchol ac eithrio MBA)	£2875
MBA gweithredol	£5,500
MA HRM (bil blynyddol am ddwy flynedd)	£4,100
MRes Ymchwil Gwyddor Biofeddygol Cymhwysol	£3,975
Mres Anthropoleg Fforensig	£3,975
MRes Ymchwil Clinigol Cymhwysol	£3,975
MSc Ymarfer Clinigol Uwch	£2,432
MSc Gwyddor Biofeddygol	£3,975
MRes Cemeg Fforensig a Dadansoddol	£3,975
Mres Anthropoleg Fforensig a Bioarchaeoleg	£3,975
MSc Seicoleg Cyfnewid (bil blynyddol am 2 flynedd)	£3,225

Rhaglen Meistr mewn Addysg fesul 30 credyd (yn cynnwys Ymarfer Proffesiynol Uwch Dyslecsia (Bil blynyddol am dair blynedd)	£990 fesul 30 credyd (£1,980 y flwyddyn)
MA Chwarae, Polisi ac Ymarfer fesul 30 credyd (Bil blynyddol am dair blynedd)	£990 fesul 30 credyd (£1,980 y flwyddyn)
Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg Uwch	£2,500
MA Gwaith Ieuenctid a Chymuned/MA Astudiaethau Ieuenctid a Chymuned (bil blynyddol dros 3 blynedd)	£1,980

ÔL-RADEDIG - YMCHWIL - Cartref

Ymchwil (MPhil/PhD) (Dyfarniad Prifysgol Caer) y flwyddyn	Ffioedd y flwyddyn Yn daladwy yn 2021/22
MPhil/PhD llawn amser (y flwyddyn)	I'w gadarnhau
MPhil/PhD rhan-amser	I'w gadarnhau
Ffi Ddysgu Cyflwyniad i Ddod (yn daladwy am 12 mis yn unig)	I'w gadarnhau
Ffi Ail-sefyll (un taliad wrth ail-gyflwyno)	I'w gadarnhau
Ffi Ddysgu Ail-gyflwyno	I'w gadarnhau
Ymchwil (Athro Doethur/D min) (Dyfarniad Prifysgol Cymru) y flwyddyn	Pob myfyriwr yn 2021/22
Ymchwil (MPhil/PhD)	Dyfarniadau Prifysgol Cymru (parhaus)
MPhil/PhD llawn amser (y flwyddyn)	£4,250
MPhil/PhD rhan-amser - Gwyddoniaeth, Peirianeg a Thechnoleg (Grŵp B) y flwyddyn	£3,200
MPhil/PhD rhan-amser - Iechyd a Lles, Seicoleg a Chyfrifiadureg (Grŵp C) y flwyddyn	£2,750
MPhil/PhD rhan-amser - Astudiaethau Busnes a Gweinyddu, Gwyddorau Cymdeithasol, Dyniaethau, Y Dyniaethau Ieithoedd a Chyfathrebu Torfol, Celf, Dylunio a'r Celfyddydau Perfformio, Addysg (Grŵp D) y flwyddyn	£2,450
Ffi O Dan Arholiad y flwyddyn	£650
Ffi Ysgrifennu Traethawd y flwyddyn	£650
Ffi Ail-gyflwyno'r Thesis	£700
Doethuriaeth Broffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol £650 fesul 30 credyd – uchafswm o 120 o gredydau	£2600
Addysg Doethuriaeth Broffesiynol £650 fesul 30 credyd – uchafswm o 120 o gredydau	£2600

Cyrsiau Proffesiynol a Chyrsiau Byrion Eraill	Pob myfyriwr yn 2021/22
Sefydliad Siartredig Marchnata - tystysgrif broffesiynol (ffi modiwl £580)	I'w gadarnhau
Sefydliad Siartredig Marchnata - diploma proffesiynol (ffi modiwl £600)	I'w gadarnhau
CISCO	I'w gadarnhau
Tâl Cymdeithas Cyfrifwyr Siartredig (ACCA) fesul papur	I'w gadarnhau

3.2.2 FFOEDD DYSGU MYFYRWYR RHYNGWLADOL

NID YW MYFYRWYR RHYNGWLADOL YN GYMWYS I GAEL UNRHYW ARIAN CYHOEDDUS FELLY MAE'N RHAID IDDYNT ARIANNU EU CWRS A'U COSTAU BYW EU HUNAIN TRA YN Y DU FEL MYFYRIWR

Myfyrwyr Rhyngwladol - Myfyrwyr Newydd, (bydd myfyrwyr rhyngwladol sy'n dychwelyd yn parhau i fod yn gyfrifol am y ffi y cytunwyd arni gyda hwy mewn blynyddoedd blaenorol)	ffioedd blynyddol sy'n ddyledus yn 2021/22	Bwrsariaeth ysgoloriaeth (y flwyddyn)
Rhaglenni llawn amser a addysgir		
Graddau israddedig	£11,750	Hyd at £2000
Ôl-raddedig	£12,500	Hyd at £2000
MBA	£13,000	Hyd at £2000
Rhaglenni MBA/MSc gydag Ymarfer Uwch (Busnes, Peirianeg a Chyfrifiadura)	Ffi dysgu sylfaenol + £500	
Rhaglenni rhan-amser a addysgir (israddedig) nid ar gyfer myfyrwyr fisa a noddir	£5,875	Hyd at £1000
Rhaglenni rhan amser a addysgir (ôl-raddedig)	£6,250	Hyd at £1000
MBA - Rhan amser	£6,500	Hyd at £1000
Ffi ail-sefyll blwyddyn (fesul 10 credyd a gyfeiriwyd)	£900	
MPhil/PhD (Mewn Labordy – Llawn Amser) – (Dyfarniad Prifysgol Caer)	I'w gadarnhau	Hyd at £1000 (I'w gadarnhau)
MPhil/PhD (Mewn Labordy – Rhan-amser) – (Dyfarniad Prifysgol Caer)	I'w gadarnhau	Hyd at £500 (I'w gadarnhau)
MPhil/PhD (Mewn Ystafell Ddosbarth – Llawn Amser) –(Dyfarniad Prifysgol Caer)	I'w gadarnhau	Hyd at £1,000 (I'w gadarnhau)
MPhil/PhD (Mewn Ystafell Ddosbarth – Rhan-amser) –(Dyfarniad Prifysgol Caer)	I'w gadarnhau	Hyd at £500 (I'w gadarnhau)

Rhaglenni Ar-lein WGU	£500 am bob Modiwl 20 Credyd (£6000 ar gyfer y rhaglen lawn)	
-----------------------	---	--

4. TELERAU AC AMODAU FFI OEDD DYSGU

A: TELERAU AC AMODAU FFI OEDD DYSGU - POB MYFYRIWR AC EITHRIO MYFYRWYR AR-LEIN WGU (GWELER ADRAN E)

Er mwyn osgoi amheuaeth, ystyrir bod yr holl ffioedd a thaliadau a restrir yn y ddogfen yn rhan o'r ffi ddysgu academiaidd.

A1: MYFYRWYR SY'N TROSGLWYDDO EU HASTUDIAETHAU YN FEWNOL NEU O SEFYDLIAD ARALL

Bydd y myfyrwyr presennol sy'n trosglwyddo o gwrs arall a ddechreuodd cyn 1 Medi 2019 i gwrs arall gyda'r un dull o astudio ac o fewn yr un band ffi yn cael eu hasesu o dan yr hen (presennol) drefniadau ffioedd dysgu a chymorth i fyfyrwyr sy'n gymwys i'r cwrs gwreiddiol.

Caiff myfyrwyr sy'n trosglwyddo o gwrs a ddechreuodd cyn 1 Medi 2019 i gwrs gyda dull gwahanol o astudio eu hasesu o dan y trefniadau ffioedd dysgu a chymorth i fyfyrwyr newydd.

A2: MYFYRWYR SY'N DERBYN CYDNABYDDIAETH AM DDYSGU DRWY BROFIAD BLAENOROL (RPEL)

Pan roddir RPEL i fyfyrwr am un neu fwy o fodiwlau ac felly mae'n gwneud llai na'r credydau disgwylidig am y flwyddyn, addesir y ffi safonol flynyddol ar gyfer y flwyddyn y byddai'r modiwlau eithriedig yn cael eu hastudio fel a ganlyn:

Cymhwysir gostyngiad o 5% o'r ffi ddysgu flynyddol a nodir (net o unrhyw fwrariaethau neu ysgoloriaethau) fesul 10 credyd o RP(E)L a gymeradwyir i'r ffi ddysgu flynyddol ar gyfer y flwyddyn y byddai'r credydau eithriedig wedi cael eu hastudio

Dylid gwneud pob cais am RP(E)L ar adeg gwneud cais

A3: AILASESU MYFYRWYR BLWYDDYN EILDRO GYDA PHRESENOLDEB

Codir £750 ar fyfyrwyr o'r **DU/EU sy'n ailadrodd blwyddyn** y mae'n ofynnol iddynt ailadrodd hyfforddiant ac asesiad yn 2020/21 fesul 10 modiwl credyd pan gyfeirir y modiwl. Mae hyn yn amodol ar yr un pwyntiau atebolrwydd ag a nodir isod ar gyfer yr holl ffioedd dysgu llawn amser eraill.

A4. AIL-SEFYLL AC AILASESU HEB FYNYCHU

Mae'n rhaid i unrhyw fyfyrwr y mae'n ofynnol iddo ailsefyll neu ailgyflwyno asesiad ar gyfer unrhyw ran o'r cwrs heb bresenoldeb oherwydd ei fod wedi'i gyfeirio, dalu'r ffi ailsefyll/ailasesu o £75 ar gyfer y modiwl hwnnw hyd at uchafswm tâl o £150 fesul myfyrwr fesul y cyfnod asesu. Fel rheol ni chodir ffi pan fo Amgylchiadau Eithriadol wedi'u cymeradwyo ar gyfer yr asesiad blaenorol o'r modiwl. Mae'r ffioedd llawn yn ddyledus wrth ail-sefyll arholiadau neu cyn hynny. Ni fydd myfyrwyr nad ydynt yn talu'r ffi ail-sefyll yn cael eu hatal rhag ail-sefyll neu ail-gofrestru yn y flwyddyn academaidd ddilynol, fodd bynnag rhaid talu'r ffi ail-sefyll cyn y caniateir i fyfyrwr raddio a/neu dderbyn dyfarniad terfynol.

A5: ARHOLIADAU MEWN LLEOLIADAU ERAILL

Os bydd myfyrwr yn gofyn i arholiad Prifysgol gael ei gynnal mewn lleoliad arall o dan amgylchiadau eithriadol (er enghraifft oherwydd bod y myfyrwr yn gallu dangos ei fod yn methu â theithio i'r Brifysgol oherwydd rheswm da), a bod y Brifysgol yn cytuno i gais o'r fath, bydd y Brifysgol yn codi ffi weinyddol am hyn. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn rhaid i'r myfyrwr dalu ffioedd neu daliadau ar wahân i drydydd partiön mewn perthynas â'r arholiad mewn lleoliad arall.

A6: MYFYRWYR SY'N ASTUDIO CYRSIAU YCHWANEGOL

Pan fydd myfyrwyr eisoes yn astudio cwrs israddedig llawn amser, caniateir i lwfans o un modiwl 20 credyd ychwanegol gael ei astudio heb i ffi ddysgu gael ei chodi yn amodol ar ddangos bod yr astudiaeth ychwanegol hon yn gysylltiedig â'u cwrs astudio ac yn ychwanegu ato. Ni chynhwysir cyrsiau byrion mewn ieithoedd (ac eithrio Saesneg mewn-sesiynol) yn yr eithriad hwn oni bai eu bod yn hanfodol. Mae'n rhaid i unrhyw eithriadau i'r gofyniad hwn gael eu cymeradwyo gan Bennaeth yr Ysgol berthnasol a'r Cyfarwyddwr Cyllid cyn i fyfyrwyr ymrestru ar y modiwl (modiwlau) neu'r cwrs ychwanegol.

A7: CYRSIAU A GANSLIR GAN Y BRIFYSGOL

Mae gan bob cwrs isafswm maint dosbarthiadau ac mae'n bosibl y cânt eu canslo os nad yw digon o fyfyrwyr yn ymrestru arnynt. Er bod y Brifysgol yn gwneud ei gorau glas i osgoi'r sefyllfa hon, os bydd yn codi, bydd gan y myfyrwr yr hawl i ad-daliad llawn o unrhyw ffioedd a dalwyd neu gall ddewis trosglwyddo i gwrs arall. Ni fydd y Brifysgol yn atebol, fodd bynnag, am unrhyw golledion eraill a gafwyd o ganlyniad i hynny.

O dan yr amgylchiadau annhebygol y bydd rhaid gohirio dosbarth unigol oherwydd salwch staff neu oherwydd unrhyw reswm arall y mae'r Brifysgol yn gyfrifol amdano, bydd yn gwneud pob ymdrech resymol i aildrefnu neu wneud darpariaeth ar gyfer darparu'r cyfle dysgu perthnasol drwy ddull arall neu o fewn y dosbarthiadau sy'n weddill yn y cwrs.

A8: TEITHIAU MAES

Mae rhai cyrsiau yn cynnwys teithiau maes. Ar gyfer rhaglenni israddedig llawn amser, os yw'r teithiau hyn yn orfodol ac yn ofynnol er mwyn cwblhau modiwlau craidd rhaglen, mae'r gost wedi'i chynnwys yn eich ffi ddysgu. At hynny, gall rhai modiwlau dewisol ar gyrsiau

israddedig llawn amser gynnwys teithiau maes dewisol, a gofynnir i'r myfyriwr dalu ffi ychwanegol ar wahân. Gall rhaglenni rhan-amser, israddedig, proffesiynol ac ôl-raddedig gynnwys naill ai teithiau maes gorfodol neu ddewisol a gellir codi ffi ychwanegol amdanynt. Ni chaniateir i fyfyriwr fod yn bresennol ar y daith maes nes y bydd unrhyw daliad sy'n ddyledus wedi ei wneud yn llawn. Gall methu â bod yn bresennol ar y daith maes am na thelir ffi am hynny arwain at fethu modiwl neu raglen a dylai myfyrwyr ystyried hyn wrth ddewis rhaglenni ac opsiynau modiwlau.

Gall ystod o gyrsiau proffesiynol, yn bennaf ym maes Busnes, gynnwys lwfans ar gyfer treuliau sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Gelwir y trefniadau hyn yn drefniadau ffioedd cyfansawdd. Bydd tiwtor cwrs y myfyriwr yn darparu'r manylion llawn.

A9: GWEITHGAREDDAU A FFIOEDD YCHWANEGOL

Gall fod yn ofynnol ar gwrs i fyfyriwr fynychu penwythnosau preswyl neu sesiynau addysgu eraill y tu allan i'r Brifysgol a gallai fod yn ofynnol i'r myfyriwr dalu ffi ychwanegol amdanynt. Ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn amser, caiff y ffi hon ei chynnwys yn eich ffi ddysgu os yw'n rhan orfodol o'ch rhaglen. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i fyfyrwyr ar raglenni eraill dalu ffi ychwanegol.

Mae'n bosibl y bydd rhaid neu na fydd rhaid i fyfyrwyr ddarparu deunyddiau ychwanegol a nwyddau traul; pan fydd darpariaeth o'r fath yn hanfodol er mwyn i'r myfyriwr allu cwblhau ei astudiaethau; y brifysgol fydd yn eu darparu. Mae'n bosibl y bydd rhaid neu na fydd rhaid i fyfyrwyr ddarparu deunyddiau ychwanegol a nwyddau traul; pan fydd darpariaeth o'r fath yn hanfodol er mwyn i'r myfyriwr allu cwblhau ei astudiaethau; y brifysgol fydd yn eu darparu.

Gall myfyrwyr fod yn gyfrifol ar wahân am dalu ffioedd i asiantaethau allanol megis ffi gofrestru gyda chorff proffesiynol. Byddwch yn cael gwybod a yw hyn yn berthnasol i'ch cwrs fel rhan o'ch proses ymgeisio.

A10: TALIADAU YCHWANEGOL AR GYFER COPIAU ERAILL O DDOGFENNAU

Mae gan fyfyrwyr yr hawl i un copi o ddogfennau swyddogol yn ymwneud â'u statws fel myfyriwr. Mae hyn yn cynnwys cardiau myfyrwyr, dogfennau yn cadarnhau eu statws fel myfyriwr ymrestredig, canlyniadau academaidd a, lle bo'n briodol, trawsgrifiad a/neu dystysgrif. Gall y Brifysgol godi ffi am gopiâu ychwanegol neu ddyblyg o unrhyw un o'r dogfennau hyn, neu lythyrau ychwanegol penodol ynghylch eich statws fel myfyriwr, yn ogystal ag unrhyw ffi weinyddu ychwanegol a chostau postio am y rhain.

B: GWYBODAETH YCHWANEGOL AR GYFER MYFYRWYR YMCHWIL ÔL-RADDEDIG

2021/22 B1: FFIOEDD DYSGU

Mae ffioedd dysgu yn berthnasol i'ch cofrestriad ar raglen yn unig ac nid ydynt yn cynnwys eitemau megis:

- Argraffu a rhwymo thesis
- Unrhyw gostau teithio/cofrestru ar gyfer cynhadledd

Pan fydd myfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig yn ymrestru am y tro cyntaf ar ddechrau ei gwrs, gall ymrestru yng nghanol y flwyddyn academaidd. Os felly, bydd ffi'r flwyddyn gyntaf yn cael ei chyfrifo ar sail pro-rata a bydd yn rhedeg o'r dyddiad ymrestru hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd honno (31 Gorffennaf). Pan fyddant yn ail-ymrestru ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, bydd y ffi lawn ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan yn daladwy. Bydd y flwyddyn bilio ar gyfer myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig yn rhedeg o 1 Awst i 31 Gorffennaf yn unol â'r flwyddyn academaidd.

B2: DYFARNIADAU PRIFYSGOL CYMRU YN UNIG: FFI OEDD O DAN ARHOLIAD

Pan fydd myfyriwr yn cyflwyno'i draethawd i'w archwilio, caiff ffi ostyngol-ei chymhwysu'n awtomatig.

- Myfyriwr 'O dan Arholiad' yng nghyfnod Awst – Hydref – credyd/ad-daliad: tri chwarter y ffi ar gyfer y flwyddyn
- Myfyriwr 'O dan Arholiad' yng nghyfnod Tach – Ion – credyd/ad-daliad: hanner y ffi am y flwyddyn
- Myfyriwr 'O dan Arholiad' yng nghyfnod Chwefror – Ebrill – credyd/ad-daliad: chwarter y ffi am y flwyddyn

Os ydych yn cyflwyno eich thesis yng nghyfnod Mai - Gorff, bydd rhaid i chi dalu'r ffi lawn ar gyfer y flwyddyn academaidd honno.

Dim ond mewn blynyddoedd dilynol y bydd ffi O dan Arholiad ostyngol yn daladwy h.y. pan fyddwch yn ail-ymrestru ar gyfer y sesiwn academaidd nesaf o 2022/23 ac yn flynyddol, a bydd yn parhau i fod yn daladwy tra byddwch yn mynd drwy'r broses arholi (viva, cywiriadau os yw'n briodol, cyflwyno'r traethawd terfynol). Felly mae'n rhaid i chi ail-ymrestru bob blwyddyn a thalu'r ffi briodol, yn flynyddol, nes i'ch dyfarniad gael ei gymeradwyo.

B3: DYFARNIADAU PRIFYSGOL CAER YN UNIG: FFI CYFLWYNIAD I DDOD

Pan fyddwch wedi gorffen casglu data a drafftio prif rannau eich thesis i fformat drafft boddhaol, gallwch wneud cais am ffi 'cyflwyniad i ddod' rhaglen lai. Mae'n rhaid i fyfyrwr llawn amser fod wedi cwblhau tair blynedd o gofrestrriad a myfyrwyr rhan-amser, pum mlynedd o gofrestrriad. Ni fydd y cais yn cael ei ôl-ddyddio fel arfer am fwy na 14 diwrnod ac uchafswm hyd y statws hwn yw 12 mis. Os nad yw'r thesis wedi cael ei gyflwyno o fewn y cyfnod 12 mis hwn, bydd y ffi yn dychwelyd i'r ffi ddysgu lawn, arferol ar gyfer y rhaglen. Ni ddylai myfyrwr fod ag unrhyw ffioedd dysgu dyledus sy'n ymwneud â dyled Prifysgol cyn cymryd eu harholiad viva voce.

C: TELERAU AC AMODAU FFI OEDD DYSGU YCHWANEGOL AR GYFER MYFYRWYR RHYNGWLADOL YN UNIG (AC EITHRIO MYFYRWYR AR-LEIN WGU - GWELER ADRAN E)

C1: AMSERIAD Y TALIADAU

Myfyrwr Newydd - Ffioedd blwyddyn 1af: Mae'n ofynnol i fyfyrwr dalu 50% o'u ffioedd dysgu blwyddyn gyntaf cyn y rhoddir CAS, a dylid talu'r 50% sy'n weddill o'r balans yn llawn cyn pen 6 mis o ddyddiad dechrau'r cwrs. Fel arall gall y myfyriwr ddarparu tystiolaeth o nawdd sy'n cadarnhau bod y ffi lawn ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn daladwy gan eu noddwr

cymeradwy. Rhaid derbyn ffioedd cwrs am y flwyddyn gyntaf neu lythyr noddwr cymwys cyn yr anfonir llythyr CAS.

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn am daliadau ffioedd cwrs yn llawn cyn cyhoeddi'r CAS os penderfynir bod hyn yn angenrheidiol i gefnogi cais fisa'r myfyriwr.

Os na thelir ffioedd y cwrs yn unol â Thelerau ac Amodau'r cynnig, efallai na fydd gan y Brifysgol unrhyw opsiwn arall, heblaw tynnu'r Ysgoloriaeth a ddyfarnwyd i'r myfyriwr yn ôl.

Myfyrwyr sy'n Dychwelyd - Mae'r holl ffioedd dysgu yn ddarostyngedig i isafswm taliad o £5,000 (neu'r ffi lawn os yw'r ffi lawn yn llai na £5000) cyn cofrestru wrth ail-ymrestru ar gyfer yr 2il, y 3edd neu'r 4edd flwyddyn, gyda'r balans sy'n weddill yn daladwy erbyn 31 Ionawr yn y flwyddyn academaidd berthnasol.

Os na fydd myfyriwr yn gwneud y taliad cychwynnol cyn cofrestru, neu'r taliad olaf erbyn 31 Ionawr yn y flwyddyn academaidd berthnasol, efallai y bydd yn ofynnol i'r Brifysgol dynnu'r myfyriwr yn ôl.

Os oes gan fyfyriwr Fisa Haen 4/Fisa Myfyriwr byddwn yn hysbysu'r UKVI nad yw'r myfyriwr bellach yn cael ei noddi gennym ni. Efallai bydd y UKFI yn ysgrifennu at y myfyriwr i gwtogi ei ganiatâd i aros. Rhaid i'r myfyriwr wneud trefniadau i ddychwelyd adref neu wneud cais o dan gategori fisa gwahanol.

Gall methiant i dalu ffioedd dysgu yn llawn erbyn y terfynau amser gofynnol arwain at drosglwyddo manylion myfyrwyr i asiantaeth casglu dyledion a gyflogir gan y Brifysgol.

C2: MYFYRWYR GYDA NODDWR ARIANNOL

Mae gan fyfyriwr noddwr ariannol swyddogol os mai Llywodraeth ei Mawrhydi, ei Lywodraeth gartref, y Cyngor Prydeinig neu unrhyw sefydliad rhyngwladol, cwmni rhyngwladol, Prifysgol neu ysgol annibynnol yn y DU a gydnabyddir yw ei noddwr. Nid yw'n ofynnol i fyfyriwr sy'n cael ei noddi'n llawn yn y ffordd hon dalu blaendal er mwyn derbyn CAS. Yn hytrach, mae'n rhaid iddo gyflwyno copi o'i lythyr noddi. I fod yn ddilys, mae'n rhaid i'r llythyr ddangos:

- enw'r myfyriwr;
- enw swyddogol a manylion cyswllt y noddwr ariannol;
- dyddiad y llythyr;
- hyd y nawdd; a
- swm yr arian y mae'r noddwr ariannol swyddogol yn ei roi, neu ddatganiad y bydd yn talu holl ffioedd y cwrs a chostau byw

Gall myfyrwyr sydd â noddwr ariannol ymrestru heb wneud unrhyw isafswm taliadau. Anfonir anfoneb at y noddwr ar ôl i'r myfyriwr ymrestru.

Mae'n rhaid i'r myfyrwyr hyn ddarparu llythyr wrth ymrestru/ail-ymrestru ar gyfer pob blwyddyn o'u cwrs yn cadarnhau y bydd eu noddwr yn talu'r ffi am y flwyddyn academaidd benodol honno. Bydd methu â darparu unrhyw lythyr o'r fath yn golygu y bydd y myfyriwr yn atebol am dalu'r ffi.

Mae'n rhaid i'r taliadau gael eu gwneud yn uniongyrchol i'r Brifysgol ac ni chânt eu dal gan asiant recriwtio.

Ni fyddwn yn derbyn taliadau drafft na siec. Derbynnir taliadau ar-lein neu drosglwyddiadau banc neu yn bersonol yn Swyddfa Cyllid y Brifysgol.

C3: CYRSIAU BYRION IAITH SAESNEG - FISAS YMWELWYR I FYFYRWYR

Mae'n rhaid i bob myfyriwr rhyngwladol ar gyrsiau byrion iaith Saesneg sy'n gofyn am fisa myfyriwr ymweliadol dalu blaendal o £1,000 na ellir ei ad-dalu cyn i lythyr derbyn neu wahoddiad gael ei gyflwyno. Mae'n rhaid talu gweddill y Ffioedd Dysgu yn llawn 21 diwrnod cyn i'r cwrs ddechrau.

C4: PEIDIO Â THALU FFI OEDD

Gall y canlynol ddigwydd i bob myfyriwr Israddedig ac Ôl-raddedig Rhyngwladol nad ydynt wedi talu'r ffioedd dysgu yn llawn erbyn y dyddiadau perthnasol:

- Gwahardd yn awtomatig o'r Brifysgol am beidio â thalu Ffioedd Dysgu
- Bydd Cofrestrfa Academaidd y Brifysgol yn rhoi gwybod i Swyddfa Gartref y DU (UKVI) o fewn 10 diwrnod i'r gwaharddiad gan y Brifysgol. Disgwylir i'r myfyriwr adael y wlad neu wneud cais am ganiatâd i aros o dan gategori fisa gwahanol gan na fydd y Brifysgol yn ei noddi mwyach. Bydd y UKVI yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i gwtogi'r fisa.

C5: CYRSIAU SAESNEG CYN-SESIYNOL

Caiff pob myfyriwr rhyngwladol sy'n dilyn cwrs Saesneg cyn-sesiynol ei asesu ar ddiwedd y cwrs cyn-sesiynol i weld a yw wedi cyflawni'r lefel ofynnol o Saesneg. Os bydd gan fyfyrwr un CAS ac maent yn gymwys i barhau ond mae angen hyfforddiant Saesneg mewn-sesiynol **gorfodol** arnynt mae'n rhaid iddynt dalu £500 yn ychwanegol ar gyfer y cwrs a'r arholiad mewn-sesiynol, a fydd yn cael eu darparu ar y cyd â'r brif raglen.

C6: ESTYNIAD I FISA MYFYRIWR

Os bydd angen i fyfyrwr ymestyn ei fisa myfyriwr, mae'n rhaid iddo fod â chefnogaeth y Brifysgol ar ffurf CAS (Cadarnhau Derbyn ar gyfer Astudiaethau). Os bydd unrhyw ffioedd dysgu yn ddyledus i'r Brifysgol, ni chyhoeddir unrhyw CAS newydd.

C7: NEWID STATWS TALWYR FFI I FYFYRIWR FFI OEDD CARTREF

Mae'n bosibl y caiff myfyriwr ei asesu fel un 'tramor' at ddibenion asesu ffioedd pan fydd yn ymrestru yn y brifysgol am y tro cyntaf ac wedyn yn newid ei statws ffioedd cyn diwedd y rhaglen.

Er y gallai ei statws newid yng nghanol blwyddyn, dim ond ar ôl i'r person hwnnw ymrestru neu ail-ymrestru y daw'r newidiadau hyn i rym.

Er enghraifft, bydd myfyriwr sy'n ymrestru ar gyfer Medi 2021 fel talwr ffi dramor y mae ei amgylchiadau wedyn yn newid yng nghanol blwyddyn ac sy'n dod yn fyfyrwr ffioedd cartref heb hawl i dalu'r swm is tan fis Medi 2022 pan fydd yn ail-ymrestru (os yw'n berthnasol). Disgwylir iddo dalu'r ffi ryngwladol lawn yn 2021/22. Ni fydd ganddo hawl i gael unrhyw ad-daliad ar hon.

C8: SUT I DALU FFIOEDD SY'N DDYLEDUS

Er mwyn ymrestru yn y Brifysgol mae'n rhaid i chi dalu **unrhyw ffioedd dysgu sy'n ddyledus o fewn y terfynau amser uchod** gan ddilyn y dulliau talu a ddisgrifir uchod. Fel arall, bydd y Brifysgol yn ystyried eich tynnu yn ôl o'r cwrs astudio.

Os bydd yr holl ffioedd sy'n ddyledus i'r Brifysgol yn parhau heb eu talu erbyn y dyddiadau cau gofynnol, ni fydd hawl gennych i astudio ac ni fydd y Brifysgol yn caniatáu i chi ymrestru, ac/neu fe fydd yn eich tynnu yn ôl o'ch rhaglen.

Os ydych yn fyfyrwr fisa Haen 4, bydd y Brifysgol yn **hysbysu'r UKVI nad ydych bellach yn fyfyrwr gyda Phrifysgol Glyndŵr, bod eich nawdd Haen 4 wedi cael ei dynnu'n ôl ac nad ydych yn bodloni telerau ac amodau'r fisa myfyriwr a roddwyd i chi.**

C9: POLISI AD-DALU

Mae ad-dalu unrhyw ffioedd dysgu yn ôl disgrisiwn y Brifysgol.

Rhaid i bob myfyriwr y mae ei gais am fisa yn cael ei wrthod gyflwyno copi o'r adroddiad gwrthod (gan y Swyddog Clirio Mynediad) i'r Brifysgol cyn pen 7 diwrnod ar ôl y penderfyniad gwrthod. Mae'r brifysgol yn eich cynghori i gyflwyno adolygiad gweinyddol os bydd eich cais am fisa yn cael ei wrthod. Rhaid i chi ddilyn cyngor y Brifysgol ar eich adolygiad gweinyddol a chyflwyno'ch apêl cyn pen 21 diwrnod ar ôl y penderfyniad gwrthod.

- a) Os bydd eich cais am fisa yn cael ei wrthod a'ch bod yn cyflwyno adolygiad gweinyddol, ond nid yw'r UKVI yn gwyrddroi'r penderfyniad gwreiddiol ac mae'r gwrthodiad yn sefyll, ac nad yw'r gwrthodiad yn ganlyniad i ddogfennaeth dwyllodrus neu anghywir, byddwch yn cael ad-daliad llawn.
- b) Os bydd eich cais am fisa yn cael ei wrthod a'ch bod yn methu â chyflwyno adolygiad gweinyddol ac nad yw'r gwrthodiad yn ganlyniad i ddogfennaeth dwyllodrus neu anghywir, tynnir ffi o £2,000 o'r ffioedd cwrs a dderbyniwyd gan y Brifysgol cyn gwneud ad-daliad.
- c) Os bydd eich cais am fisa yn cael ei wrthod a bod y gwrthodiad o ganlyniad i ddogfennaeth dwyllodrus neu anghywir ac nad yw adolygiad gweinyddol yn gwrthdroi hyn, ni wneir ad-daliad o'r ffioedd cwrs a dderbyniwyd.

Tynnu'n ôl ar ôl Cyhoeddi Fisa: Bydd ymgeiswyr, sydd angen CAS er mwyn gwneud cais am fisa, sydd yna'n tynnu'n ôl ar ddyddiad dechrau'r cwrs neu cyn i'r cwrs ddechrau ar ôl

cael fisa, yn cael ad-daliad llawn o holl ffioedd dysgu'r flwyddyn gyntaf a dalwyd namyn ffi weinyddol o hyd at £1,000.

Tynnu'n ôl o ganlyniad i fethu Saesneg Iaith: Bydd myfyrwyr sy'n ymrestru ar gyfer cwrs Saesneg cyn-sesiynol ar un CAS ond sy'n methu â chyflawni'r gofyniad UKVI yn cael eu tynnu'n ôl wedyn a bydd ganddynt hawl i ad-daliad o'r ffi ddysgu prif gwrs llai cost y cwrs cyn-sesiynol a llai ffi weinyddu o hyd at £1,000.

Tynnu'n ôl ac Ataliadau yn ystod y rhaglen: Bydd pob myfyriwr Rhyngwladol ar gyrsiau Israddedig ac Ôl-raddedig sy'n tynnu'n ôl neu'n atal eu hastudiaethau yn ystod eu rhaglen astudio yn cael y lefelau canlynol o ad-daliad o'r Ffioedd Dysgu net (ar ôl unrhyw ysgoloriaeth) ar gyfer y flwyddyn academiaidd honno:

- (i) llai na naw wythnos ar ôl i'r cwrs ddechrau - 75%;
- (ii) (ii) rhwng naw a deunaw wythnos ar ôl i'r cwrs ddechrau - 50%;
- (iii) (iii) mwy na deunaw wythnos ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs - 0%.

Ni fydd myfyrwyr sy'n atal eu hastudiaethau yn gallu aros yn y DU ar eu fisa Myfyriwr cyfredol, rhoddir gwybod i'r UKVI fod y myfyriwr wedi atal ei astudiaethau a byddant yn cymryd y camau angenrheidiol i gwtogi fisa'r myfyriwr. Bydd disgwyl i'r myfyriwr ddychwelwyd adref neu wneud cais am ganiatâd i aros os yw'n dewis aros yn y DU. Bydd gan y myfyriwr yr opsiwn i ddychwelyd i'w astudiaethau (fel y cytunwyd ar y ffurflen atal astudiaethau), i wneud hyn bydd angen CAS newydd ar y myfyriwr i allu gwneud cais am ei fisa newydd. Os bydd y myfyriwr yn gofyn am ad-daliad yn dilyn yr ataliad, bydd gofyn iddo dalu'r holl ffioedd sy'n ddyledus cyn cyhoeddi ail CAS.

Tynnu'n ôl o gyrsiau byr: Bydd pob myfyriwr Rhyngwladol ar gyrsiau byr sy'n gofyn am fisa ymwelydd myfyriwr ac sy'n tynnu'n ôl o'i gwrs o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r cwrs yn cael ad-daliad llawn o'i Ffioedd Dysgu namyn ffi weinyddol o hyd at £1,000.

Talu'r ad-daliad

Os cytunir bod ad-daliad yn daladwy bydd ffioedd dysgu **yn cael eu had-dalu i'r talwr gwreiddiol gan ddefnyddio'r un dull talu â'r taliad gwreiddiol.**

Gellir tynnu ffioedd banc o'r ad-daliadau a wneir drwy drosglwyddiad banc neu electronig yn ôl disgrisiwn Prifysgol Glyndŵr.

SYLW I BOB MYFYRIWR RHYNGWLADOL:

PEIDIWCH Â RHOI'R GORAU I FOD YN BRESENNOL. BYDD EICH FFI YN DDYLEDUS O HYD ONI BAI FOD GWEITHDREFNAU FFURFIOL WEDI'U DILYN

Bydd ffioedd dysgu yn parhau'n ddyledus tan y dyddiad y bydd y tîm Cydymffurfiad Mewnfudo yn cael ffurflen tynnu'n ôl o'r brifysgol/atal prifysgol wedi'i llenwi'n gywir ac sydd wedi'i llofnodi gan y gyfadran academiaidd y mae'r myfyriwr yn astudio ynddi. Fel arfer, ni fydd gwaharddiadau ôl-weithredol yn cael eu hawdurdodi. Gweler D5 i weld

pwyntiau atebolrwydd perthnasol. Dylai myfyrwyr gyfeirio at Bolisi Presenoldeb ac Ymgysylltu'r Brifysgol.

D: TELERAU AC AMODAU FFIOEDD DYSGU YCHWANEGOL - MYFYRWYR CARTREF (AC EITHRIO MYFYRWYR AR-LEIN WGU)

D1: AMSERIAD Y TALIADAU

Mae ffioedd yn ddyledus ar adeg ymrestru ac mae'n ofynnol i fyfyrwyr roi gwybod i'r Brifysgol pa drefniant talu sy'n berthnasol iddynt:

D2: WEDI'I ARIANNU'N LLAWN (LLAWN AMSER)

Mae angen i chi ddatgan i'r Brifysgol os yw SLC yn talu eich ffi ddysgu pan fyddwch yn ymrestru.

Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr fel arfer yn cadarnhau eich cyllid drwy ddull electronig i'r Brifysgol. Fodd bynnag, gellir gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o hyn.

Mae angen i chi dalu'r ffi lawn, neu os yw'r ffi yn fwy na £1,000, yna talu mewn tri rhandaliad fel a ganlyn:

Dyddiad dyledus y rhandaliad

Cyntaf Erbyn 31 Hydref 2021

Ail Erbyn 31 Ionawr 2022

Trydydd Erbyn 30 Ebrill 2022

Bydd ffioedd ar gyfer cyrsiau gyda dyddiadau dechrau amrywiol, gan gynnwys rhaglenni PGR, yn amodol ar ddyddiadau wedi'u haddasu, caiff manylion eu darparu cyn y dyddiad ymrestru

Gallai methu â thalu eu ffioedd dysgu yn llawn erbyn y terfynau amser gofynnol olygu bod myfyrwyr yn cael eu tynnu oddi ar y rhaglen, ac y trosglwyddir manylion myfyrwyr i asiantaeth casglu dyledion a gyflogir gan y Brifysgol

D3: MYFYRWYR GYDA NODDWR FFIOEDD

Mae'n rhaid i fyfyrwyr ddarparu llythyr/archeb brynu wrth ymrestru/ail-ymrestru ar gyfer pob blwyddyn o'u cwrs gan gadarnhau y bydd eu noddwr yn talu'r ffi am y flwyddyn academaidd benodol honno, ar adeg ymrestru neu o fewn terfyn o 30 diwrnod. Mae'n rhaid i'r llythyr gynnwys cyfeiriad e-bost, y gall y Brifysgol anfon anfoneb ato, gydag enw cyswllt, rhif archeb brynu (os yw'n berthnasol) a swm y nawdd. Nodwch mai cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod yr holl ffioedd yn cael eu talu. Os nad yw'r noddwr yn talu ffioedd y myfyriwr am unrhyw reswm, y myfyriwr fydd yn atebol am y taliad. Sylwch fod angen darparu llythyr BOB blwyddyn y bydd myfyriwr wedi'i gofrestru a dylid ei anfon at y Brifysgol.

D4: NEWID EICH DULL ASTUDIO

Os bydd myfyriwr yn newid o Astudio Llawn Amser i bresenoldeb Rhan-amser, neu i'r gwrthwyneb, caiff y ffioedd dysgu sy'n ddyledus eu newid neu eu credydu i adlewyrchu hyn yn ystod blwyddyn academiaidd y newid. Bydd myfyrrwyr sy'n newid i ddull astudio Rhan-amser (h.y. fel myfyriwr Rhan-amser ar gwrs Rhan-amser) yn gorfod talu'r ffi ran-amser berthnasol. Atgoffir myfyrrwyr sy'n newid i'r modd Rhan-amser y byddant yn fforffedu unrhyw fwsariaeth Llawn Amser sy'n ddyledus. Bydd myfyrrwyr sy'n newid i ddull astudio Llawn Amser yn gorfod talu ffi'r cwrs Llawn Amser safonol. Cyfrifoldeb y myfyrrwyr sy'n derbyn cymorth ariannol myfyrrwyr yw rhoi gwybod i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr am unrhyw newid yn y dull o astudio.

Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fydd myfyrrwyr yn newid eu dull astudio o Llawn Amser ar gwrs Llawn Amser er mwyn cael eu dynodi fel Rhan-amser ar gwrs Llawn Amser at ddibenion cymorth ariannol i fyfyrrwyr, mae'r canlynol yn berthnasol:

- Mae'n rhaid i'r myfyriwr gael cytundeb Pennaeth yr Ysgol berthnasol a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr;
- Ni fydd y newid mewn modd yn para mwy na dwy flwyddyn academiaidd (uchafswm o 120 o gredydau dros ddwy flynedd);
- Bydd y ffi a godir yn 50% o'r ffi ddysgu Llawn Amser ym mhob blwyddyn y mae'r myfyriwr wedi'i ymrestru fel Rhan-amser ar gwrs Llawn Amser;
- Mae'n rhaid hysbysu'r adrannau Cyllid a Chynllunio Strategol ar unwaith.

Y Swyddfa Gyllid yw'r pwynt cyswllt ar gyfer cyfrifiadau ffioedd diwygiedig.

D5: TYNNU'N ÔL/GWAHARDD O'R CWRS

Mae myfyriwr yn dod yn atebol am ganran o'r ffi ddysgu cyn gynted ag y bydd yn ymrestru. Mae atebolrwydd yn gymwys o ddechrau'r flwyddyn academiaidd, hyd yn oed os yw'r myfyriwr yn ymrestru yn hwyrach na dechrau'r tymor.

Pennir yr atebolrwydd am y ffi llawn fesul cam. Os bydd myfyriwr yn ymrestru, ond yn penderfynu wedyn nad y Brifysgol yw'r peth iddo/iddi neu mae angen iddo/iddi atal yr astudiaethau, yna gall cyfran o'r ffi fod yn daladwy yn dibynnu ar pryd y bydd yn penderfynu gadael y cwrs. Mae'r dyddiad gadael yn eithriadol o bwysig.

Mae'r dyddiad gadael yn eithriadol o bwysig:

Myfyriwr yn gadael:	% o'r ffi y mae'n atebol amdano
O 20 Medi 2021 a hyd at a chan gynnwys 7 Ionawr 2022	Mae'r myfyriwr yn atebol ar unwaith am 25% o'r ffi ddysgu flynyddol, o ddiwrnod cyntaf y tymor; fodd bynnag, gall y brifysgol ymatal rhag gosod y ffi hon am gyfnod "ailfeddwl" o bythefnos.
O 8 Ionawr 2021 a hyd at a chan gynnwys 15 Ebrill 2022	Mae'r myfyriwr yn atebol am 50% o'r ffi ddysgu flynyddol.

O 16 Ebrill 2022

Mae'r myfyriwr yn atebol am y ffi ddysgu flynyddol gyfan.

Bydd ffioedd dysgu yn parhau'n ddyledus tan y dyddiad y bydd y Brifysgol yn derbyn ffurflen tynnu'n ôl o'r brifysgol/atal prifysgol wedi'i llenwi'n gywir ac sydd wedi'i llofnodi gan y gyfadran academaidd y mae'r myfyriwr yn astudio ynddi. Fel arfer, ni fydd gwaharddiadau ôl-weithredol yn cael eu hawdurdodi. Dylai myfyrwyr gyfeirio at bolisi Presenoldeb ac Ymgysylltu'r Brifysgol

NODER OS BYDDWCH YN RHOI'R GORAU I FOD YN BRESENNOL BYDD EICH FFI YN DDYLEDUS O HYD ONI BAI FOD GWEITHDREFNAU FFURFIOL WEDI'U DILYN

Mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth i ddangos bwriad gwreiddiol y myfyriwr i dynnu'n ôl ar y dyddiad a nodir. Mae'n rhaid i fyfyrwyr lenwi ffurflen tynnu yn ôl ym mhob achos.

Mae'n bosibl y bydd gan bwyntiau atebolrwydd ar gyfer dyddiadau cychwyn ansafonol h.y. nid mis Medi bwyntiau atebolrwydd gwahanol. Cysylltwch â'r Swyddfa Gyllid ar 01978 293162 i gael cyngor.

Sylwer bod ad-dalu unrhyw ffioedd dysgu yn ôl disgrisiwn y Brifysgol. Ystyrir ad-daliadau dim ond pan fydd y myfyriwr yn gofyn am dynnu yn ôl.

E: TELERAU AC AMODAU FFI OEDD DYSGU YCHWANEGOL - MYFYRWYR AR-LEIN WGU

E1: MYFYRWYR SY'N DERBYN CYDNABYDDIAETH AM DDYSGU BLAENOROL (RPL) NEU DDYSGU DRWY BROFIAD BLAENOROL (RPEL)

Pan roddir RPEL i fyfyriwr am un neu fwy o fodiwlau ac felly mae'n gwneud llai na'r credydau disgwylidig am y flwyddyn, bydd ffi'r rhaglen yn cael ei lleihau yn ôl cyfran.

E2: CYRSIAU A GANSLIR GAN Y BRIFYSGOL

Mae gan bob cwrs isafswm maint dosbarthiadau ac mae'n bosibl y cânt eu canslo os nad yw digon o fyfyrwyr yn ymrestru arnynt. Er bod y Brifysgol yn gwneud ei gorau glas i osgoi'r sefyllfa hon, os bydd yn codi, bydd y myfyriwr yn cael ei ymrestru ar y rhaglen nesaf neu fodiwl addas sydd ar gael. Bydd yn gymwys am ad-daliad o unrhyw ffioedd a dalwyd.

O dan yr amgylchiadau annhebygol y bydd rhaid gohirio sesiwn neu weithgaredd unigol, bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i aildrefnu neu wneud darpariaeth ar gyfer darparu'r cyfle dysgu perthnasol drwy ddull i osgoi anfantais i fyfyrwyr a sicrhau y gellir cyflawni canlyniadau.

E3: TALIADAU YCHWANEGOL AR GYFER COPÏAU ERAILL O DDOGFENNAU

Bydd eich ffi ddysgu yn darparu ym mhob blwyddyn academaidd y byddwch wedi ymrestru un copi o ddogfennau swyddogol yn ymwneud â'ch statws fel myfyriwr. Mae hyn yn cynnwys eich cerdyn myfyriwr a dogfennau fel llythyrau yn cadarnhau eich statws fel myfyriwr cofrestredig, eich canlyniadau academaidd a, pan fo'n briodol oherwydd eich cyflawniad,

trawsgrifiad a/neu dystysgrif. Os bydd angen arnoch gopiâu ychwanegol neu ddyblyg o unrhyw un o'r dogfennau hyn, neu lythrau ychwanegol penodol ynghylch eich statws fel myfyriwr gall y Brifysgol godi ffi weinyddu ychwanegol a chostau postio am y rhain.

E4: MYFYRWYR A ARIENNIR DRWY SLC

Mae angen i chi ddatgan i'r Brifysgol os yw SLC yn talu eich ffi ddysgu pan fyddwch yn ymrestru. Dylech fod yn ymwybodol:

- (i) efallai y bydd rhaid i chi dalu eich ffioedd dysgu cyn i chi dderbyn cyllid gan SLC. Dylech wneud trefniadau i sicrhau y gallwch wneud hyn. Ni fyddwch yn gallu cychwyn y rhaglen neu fodiwl oddi fewn iddi heb dalu'r ffi berthnasol.
- (ii) bydd unrhyw gyfnodau o dynnu'n ôl o'r rhaglen dros dro yn cael eu hadrodd i SLC a gall hyn arwain at oedi o safbwynt cyllid pan fyddwch yn ailddechrau'r rhaglen;
- (iii) os ydych yn cael cyllid gan SLC heb ymgysylltu â'r rhaglen, dylech dybio y bydd rhaid i chi ad-dalu'r holl arian i SLC.

F: CANLLAWIAU YCHWANEGOL I BOB MYFYRIWR AR SUT I WNEUD TALIAD (AC EITHRIO MYFYRWYR AR-LEIN WGU - GWELER ADRAN E)

Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod yr holl daliadau yn cyrraedd y Brifysgol erbyn y dyddiad gofynnol ar gyfer taliadau. Ni wneir unrhyw eithriad oherwydd bod banciau ar gau yn ystod gwyliau cyhoeddus/cenedlaethol ac fe ddylai'r myfyriwr ragweld y rhain. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn brydlon a bydd y Brifysgol yn cymryd camau llym yn erbyn unrhyw fyfyrwr sy'n methu â gwneud hynny.

Mae ffioedd newydd yn berthnasol i fyfyrwr newydd sy'n ymrestru yn unig, ond mae'r pwyntiau atebolrwydd (y pwyntiau pan fydd canran o'r ffi yn dod yn daladwy) a'r broses o dynnu'n ôl yn berthnasol i bob myfyriwr newydd a myfyrywr llawn amser a rhan-amser, ac eithrio myfyrywr PhD/MPhil.

I wneud taliad i'r Brifysgol mae gennych yr **opsionau talu canlynol**. Ar gyfer pob opsiwn, mae'n rhaid i'r myfyriwr fod â **rhif adnabod y myfyriwr a manylion banc y myfyriwr. Sylwer na allwn dderbyn taliadau arian parod**

Myfyrywr Cartref	Myfyrywr rhyngwladol
Sieciau sterling, cardiau debyd (Maestro, Delta, Solo a VISA Electron), cardiau credyd (VISA a MasterCard yn unig) a throsglwyddiadau/drafftiau banc.	Sieciau sterling, cardiau debyd (Maestro, Delta, Solo a VISA electron), cardiau credyd (VISA a MasterCard yn unig) a throsglwyddiadau/drafftiau banc.

<p>Wyneb yn wyneb:</p> <p>Wrth gofrestru</p> <p>Ar-lein:</p> <p>Yn https://payonline.glyndwr.ac.uk/</p> <p>Trwy'r Post:</p> <p>Anfonwch eich siec sterling sy'n daladwy i Brifysgol Glyndŵr i:</p> <p>Adran Gyllid Prifysgol Glyndŵr Wrecsam PP4 Plas Coch Ffordd yr Wyddgrug Wrecsam LL11 2AW</p> <p>Drwy Orchymyn Sefydlog/Trosglwyddiad Banc: Gofynnwch i'r swyddfa gyllid am fanylion.</p> <p>Dros y Ffôn:</p> <p>Ffoniwch 01978 293037 neu 01978 293936</p> <p>Cofiwch fod â'ch rhif myfyriwr yn barod pan fyddwch yn ffonio.</p> <p>Dylid anfon ffurflenni'r banc drwy e-bost at accountsreceivable@glyndwr.ac.uk neu eu postio i'r cyfeiriad uchod.</p>	<p>Opsiwn 1 (y dull talu sydd orau gennym)</p> <p>Trosglwyddiad banc drwy Gyfrif y Brifysgol ag Western Union Business Solutions:</p> <p>Mae myfyrwyr sy'n dymuno gwneud taliadau o dramor neu o'r DU yn aml yn colli arian oherwydd cyfraddau cyfnewid cyfnewidiol, taliadau banc drud a thaliadau cerdyn annisgwyl. Mae defnyddio'r gwasanaeth a ddarperir gan Western Union Business Solutions yn helpu i ddileu'r problemau hyn ac yn sicrhau y gellir prosesu'ch ymrestriad yn gyflym.</p> <p>Mae defnyddio'r gwasanaeth a ddarperir gan Western Union Business Solutions i wneud taliadau yn eich arian lleol yn helpu i ddileu'r problemau hyn ac yn sicrhau bod y Brifysgol yn derbyn 100% o'r taliad a anfonwch chi (dim ffioedd trosglwyddo).</p> <p>Mae'r gwasanaethau yn gwarantu cyfradd gyfnewid i chi am 72 awr i roi amser i chi wneud y taliad gan ddefnyddio'r rhyngwrwd, eich ffôn neu'ch banc lleol, a chewch eich hysbysu drwy e-bost cyn gynted ag y bydd eich taliad wedi'i dderbyn.</p> <p>Defnyddiwch y ddolen isod i gael mynediad at y gwasanaeth:</p> <p>https://www.geoforeducation.com/PRR/Info/SelfEnrol.aspx?paramset=26ff793b-b996-404c-af25-8ab217cb6667</p> <p>Sylwch fod y gwasanaeth hwn ar gael i fyfyrwyr sy'n dymuno talu mewn Punnoedd Prydeinig, gan gynnwys myfyrwyr domestig.</p> <p>Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y gwasanaeth hwn neu am eich taliad gallwch gysylltu â llinell gymorth ddynodedig Western Union i fyfyrwyr ar + +44 (0) 1733 294459 + 44 (0)1733 294459 neu anfonwch e-bost at education@westernunion.com.</p>
--	---

	<p>Opsiwn 2</p> <p>Trosglwyddiad banc neu Adnau Banc yn uniongyrchol i Gyfrif y Brifysgol:</p> <p>Banc: Barclays Bank Plc Cod Didoli: 20-51-01 Rhif y Cyfrif: 80645370 Enw: Prifysgol Glyndŵr Cod Swift: BARCGB22 IBAN: GB14BARC20510180645370</p>
	<p>Opsiwn 3</p> <p>Yn bersonol: Drwy gerdyn credyd/debyd dros y ffôn</p> <p>Os oes gennych gwestiwn ynghylch eich ffioedd, anfonwch e-bost i: accountsreceivable@glyndwr.ac.uk</p> <hr/> <p>Opsiwn 4</p> <p>Taliad ar-lein drwy gerdyn</p> <p>Gallwch wneud taliad drwy fewngofnodi i'ch cyfrif Moodle a dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin.</p> <p>Os nad oes gennych fynediad at Moodle eto, gallwch dalu ar-lein yma</p>

Ymwadiad - Sylwch: Mae Prifysgol Glyndŵr wedi cymryd pob cam posibl i sicrhau bod yr wybodaeth a gynhwysir uchod yn gywir ar adeg ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr wybodaeth yn agored i newid os gwneir penderfyniadau y tu hwnt i'r Brifysgol sy'n effeithio ar bolisiau a gweithdrefnau o ran ffioedd, bwrsariau, grantiau ac ysgoloriaethau.

DIWEDD